**Yn Adrodd i:** Y Cyngor

**Dyddiad y Cyfarfod:** 11 Medi 2012

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Barbara Smith

**Awdur yr Adroddiad:** Mohammed Mehmet, Prif Weithredwr

**Teitl: Datganiad Polisi Cyflog**

---

**t**

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

*1.1* Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gofyn i awdurdodau lleol baratoi datganiadau polisi cyflog. Rhaid i'r datganiadau hyn egluro polisïau'r awdurdod ei hunan ynghylch gwahanol faterion mewn perthynas â chyflog ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu'r 'prif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n derbyn y lleiaf o gyflog. Rhaid paratoi datganiadau polisi cyflog am bob blwyddyn ariannol, gan ddechrau yn 2012 / 13. Rhaid i'r Cyngor eu cymeradwyo a'u cyhoeddi ar y wefan berthnasol.

*.*

## 2. Beth yw'r rheswm dros baratoi'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi i fodloni goblygiadau cyfreithiol y Cyngor mewn perthynas â Deddf Lleoliaeth 2011.

2.2 Gofyn am gymeradwyaeth i'r Datganiad Polisi Cyflog sydd wedi'i drafftio'n unol â gofynion 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 ac sy'n cynnwys yr holl drefniadau cyflog presennol ar gyfer grwpiau'r gweithlu'r Cyngor, gan gynnwys y Prif Swyddogion a'r gweithwyr ar y cyflog isaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflog ynghlwm er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i oblygiadau cyfreithiol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 O dan Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae gan y Cyngor 'yr hawl i benodi swyddogion ar delerau ac amodau rhesymol yn ôl barn yr Awdurdod'. Mae'r datganiad Polisi Cyflog hwn yn dangos agwedd y Cyngor at Bolisi Cyflog yn unol â gofynion 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011, sy'n gofyn i Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer 2012 /13 ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ôl hynny, yn manylu ar:

a) Bolisïau'r Awdurdod tuag at holl agweddau ac elfennau o gyflog Prif Swyddogion
b) Eu hagwedd at gyhoeddi a rhyddhau gwybodaeth mewn perthynas ag holl agweddau o gyflog Prif Swyddogion
c) Polisiau'r Awdurdod tuag at dâl ei weithwyr ar y cyflog isaf (gan gynnwys y diffyniad a fabwysiadwyd a'r rhesymau drosto)
d) Y berthynas rhwng cyflog ei Brif Swyddogion a gweithwyr eraill.

**5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Amherthnasol

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Does dim goblygiadau ariannol newydd i'r Cyngor yn codi o'r adroddiad hwn.

**7. Pa ymgynghoriadau a wnaed ac a gynhaliwyd Sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb?**

7.1. Ymgynghorwyd gyda Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, y Swyddog Adran 151 a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i sicrhau fod holl ofynion Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth wedi'u cynnwys yn y Datganiad Bolisi Cyflog.

7.2. Y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Adnoddau Dynol sy'n fodlon bod yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor.

7.3 Roedd Strwythur Cyflog a Graddio'r Cyngor, a gyflwynwyd yn dilyn Statws Sengl, yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Does dim goblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Bydd y Cyngor yn torri'i oblygiadau cyfreithiol mewn perthynas â'r Ddeddf Lleoliaeth os nad yw'n mabwysiadu'r Polisi Cyflog

**10. Yr Hawl i Benderfynu**

10.1 Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 ac adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn cynnwys yr hawl i benodi swyddogion.